**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

**Dyddiad:** **30 Tachwedd 2010**

**Amser:** **09:05 – 10:00**

**Lleoliad:** **Senedd**

**Teitl:** **Y gyllideb ddrafft Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar gyfer 2011-12**

## Diben

1. Darparu papur tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y gyllideb Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (PADGOS), ac ar y blaenoriaethau yn y maes, ar gyfer 2011-12.

## Amseru

2. Cyhoeddwyd y gyllideb ddrafft ar 17 Tachwedd 2010.

## Cyllideb Ddrafft 2011-12

3. Cyllideb Ddrafft 2011-12 sy'n darparu'r adnoddau a fydd yn cael eu buddsoddi yn 2011-12 i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau yng Nghymru. Mae Tabl 1 yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i gyllideb neu 'brif grŵp gwariant' (MEG) PADGOS yn sgil y gyllideb ddrafft.

*Tabl 1: MEG Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

| | 2010-11 Cyllideb Sylfaenol £000 | Newidiadau £000 | 2011-12 Cyllideb Ddrafft £000 | Newidiadau £000 | 2012-13 Cyllideb Ddangosol £000 | Newidiadau £000 | 2013-14 Cyllideb Ddangosol £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DEL Refeniw | 1,694,551 | -21,087 | 1,673,464 | 8,571 | 1,682,035 | 23,251 | 1,705,286 |
| DEL Cyfalaf | 183,492 | -10,139 | 173,353 | -12,110 | 161,243 | -17,509 | 143,734 |
| **Cyfanswm DEL** | **1,878,043** | **-31,226** | **1,846,817** | **-3,539** | **1,843,278** | **5,742** | **1,849,020** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 203,398 | 14,258 | 217,656 | 8,125 | 225,781 | 735 | 226,516 |
| **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | **2,081,441** | **-16,968** | **2,064,473** | **4,586** | **2,069,059** | **6,477** | **2,075,536** |

## Cyd-destun y Gyllideb

Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r ymrwymiad cadarnhaol i warchod y cyllid ar gyfer ysgolion a sgiliau, ac i amddiffyn y gwasanaethau rheng flaen hynny sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant, er gwaethaf y setliad anodd iawn a gafwyd gan Lywodraeth y DU. Bydd y gyllideb yn galluogi'r gwasanaethau hyn i gael eu hestyn, drwy fuddsoddi rhagor dros y dair blynedd nesaf. Mae'r cyllidebau ar gyfer ysgolion - drwy'r Adran Addysg a thrwy'r Grant Cynnal Refeniw fel ei gilydd - wedi cael eu gwarchod gan 1% uwch law cyfradd y

newid yng nghyllideb Cymru. Mae'r cyllidebau ar gyfer sgiliau wedi cael eu gwarchod i'r un graddau hefyd.

4. Rhaid edrych ar y gyllideb ar gyfer 2011-12 yng nghyd-destun y lleihad yn yr adnoddau sy'n cael eu darparu i Lywodraeth Cynulliad Cymru dros y cyfnod hwn. Er gwaethaf hyn, mae'r gyllideb ar gyfer Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi atgyfnerthu'r ymrwymiadau a wnaed yn Cymru'n Un drwy warchod y cyllidebau ar gyfer ysgolion, datblygu sgiliau a gwasanaethau i blant yn 2011-12. Mae hefyd yn darparu cynnydd dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol.

5. Mae'r cyllid refeniw ar gyfer 2011-12 wedi gostwng £21.1 miliwn o'i gymharu â gwaelodlin 2010-11. Mae'r gostyngiad yn cyfateb i 1.3%. Mae'r cyllidebau dangosol ar gyfer y blynyddoedd a ddaw yn dangos cynnydd blynyddol positif o £8.6 miliwn (0.5%) yn 2012-13 a £23.3 miliwn (1.4%) yn 2013-14.

6. Hefyd, mae rhai cyllidebau wedi cael eu hailflaenoriaethu er mwyn sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llawn, er mwyn cynyddu'r cyllid ar gyfer dysgwyr ôl 16 sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, er mwyn bodloni'r galw am frecwastau am ddim mewn ysgolion cynradd ac er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr sydd mewn addysg uwch.

7. Mae'r cyllid cyfalaf wedi gostwng £10.1 miliwn, (5.5%) ar gyllideb 2010-11. Mae'r gostyngiadau hyn yn disgyn eto i £12.1 miliwn (7%) a £17.5 miliwn (10.9%) ar gyfer y ddwy flynedd o 2012-13 ymlaen. Mewn ymateb i hyn, bydd yr adran yn ceisio rheoli prosiectau cyfalaf yn fwy strategol a bydd yn blaenoriaethu ei buddsoddiadau yn ofalus.

8. Mae'r angen i'r Adran a'i sefydliadau partner wireddu arbedion effeithlonrwydd mewn termau real, ar y cyd ag arbedion i'r gyllideb, wedi bod yn ganolog i'r broses o bennu'r gyllideb. Mae cysylltiad agos rhwng yr angen hwnnw a'r gwaith o reoli'r gostyngiad cyffredinol yn y gyllideb, yn ogystal â chynnal gwasanaethau rheng flaen.

9. Wrth bennu ei chyllidebau, mae'r Adran wedi ystyried ac asesu effeithiau'r newidiadau ar y sefydliadau y byddant yn effeithio arnynt ac, yn bwysicach fyth, ar y dysgwyr a'r canlyniadau dysgu. Mae ystyriaeth ofalus wedi'i rhoi i'r effeithiau ar gydraddoldeb a'r angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol, gan gynnwys tlodi plant, yn fwy cyffredinol. Yn benodol, mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y ffaith y gwarchodwyd y cyllidebau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant, a'r cynnydd a geir mewn nifer o gyllidebau gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen, brecwastau am ddim mewn ysgolion cynradd ac Anghenion Addysgol Arbennig ôl 16.

**Rhaglenni Cyflenwi Allweddol**

10. Y rhaglenni cyflenwi allweddol yw'r rheini sy'n cael effaith uniongyrchol ar y meysydd sy'n cael blaenoriaeth, sef ysgolion, datblygu sgiliau a

gwasanaethau i blant. Mae cynlluniau manwl y gyllideb wedi'u darparu yn Nogfen 3. Mae'r prif feysydd ar gyfer gwariant yn 2011-12 wedi'u nodi isod:

- ***Ar gyfer y blynyddoedd cynnar:*** Dechrau'n Deg (£39.144 miliwn), y Cyfnod Sylfaen (£91.151 miliwn), Bwyd a Maeth mewn Ysgolion (£15.85 miliwn);

- ***Ar gyfer plant a phobl ifanc:*** Cymorth (£44.107 miliwn), Llwybrau Dysgu 14-19 (£20.62 miliwn refeniw), y Gronfa Ysgolion Gwell (£15.164 miliwn) a Bagloriaeth Cymru (£11 miliwn);

- ***Ar gyfer ôl-16:*** Datblygu Sgiliau a Dysgu yn y Gweithle (£20.413 miliwn), ariannu Dosbarthiadau 6 mewn Ysgolion, Dysgu yn y Gweithle, Dysgu yn y Gymuned i Oedolion ac Addysg Bellach (£564.932 miliwn), Addysg Uwch (£394.479 miliwn), Cyllid Myfyrwyr (£273.952 miliwn, ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol) a'r Gwasanaeth Gyrfaoedd (£38.00m); a

- ***Cyllidebau cyfalaf*** o £173.353 miliwn sy'n cynnwys y Blynyddoedd Cynnar, Addysg Uwch, Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, Trawsnewid Addysg Bellach a Chyllid Cyfalaf Cyffredinol ar gyfer Awdurdodau Lleol.

11. Disgrifir y newidiadau i'r gyllideb bresennol yn y paragraffau canlynol.

**Plant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion**
**Cyllideb 2011-12 - £223.9 miliwn**

*Y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc: Cyllideb 2011-12 - £124.6 miliwn*

12. Mae cyllideb 2011-12 wedi'i gostwng £0.088 miliwn. Mae gostyngiadau wedi'u cyflwyno i gyrff sydd â swyddogaeth weinyddol a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, lle y mae disgwyl sicrhau arbedion tebyg i lefelau'r gostyngiadau sy'n berthnasol i Gostau Rhedeg Dirprwyedig Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn cynnwys y Comisiynydd Plant.

13. Mae Dechrau'n Deg (rhaglen y blynyddoedd cynnar) a Cymorth ill dau yn derbyn cynnydd dangosol o 2012-13 ymlaen. Cyfanswm y cynnydd ar gyfer y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc yw £5.6 miliwn dros y ddwy flynedd hyd at 2013-14.

*Arweinyddiaeth Ysgolion ac Effeithiolrwydd: Cyllideb 2011-12 - £26.2 miliwn*

14. Nid oes unrhyw newidiadau yn yr arfaeth ar gyfer 2011-12. Serch hynny, mae cynnydd yn y gyllideb o £2.7 miliwn a £4.2 miliwn yn yr arfaeth ar gyfer 2012-13 a 2013-14. Mae £5 miliwn yn ychwanegol dros y cyfnod ar gyfer Effeithiolrwydd Ysgolion, yn gysylltiedig â'r cyllid ychwanegol ar gyfer Sgiliau Sylfaenol mewn Ysgolion, £1.5 miliwn ar gyfer Ysgolion Bro a £0.4 miliwn ar gyfer Arloesi mewn Ysgolion Bach a Gwledig.

*Cymorth i Ddysgwyr: Cyllideb 2011-12 - £73.2 miliwn*

15. Mae'r gyllideb hon yn rhoi rhagor o gymorth i ddiogelu grwpiau sy'n agored i niwed ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae'r ymrwymiad i iechyd a lles disgyblion ysgol yn parhau, gan gynnwys darparu brecwastau am ddim mewn ysgolion cynradd, drwy gynnydd o £2.7 miliwn yn y gyllideb. Mae cynnydd dangosol o £2.75 miliwn a £2.85 miliwn yn yr arfaeth ar gyfer 2012-13 a 2013-14. Yn ogystal â rhagor o gyllid ar gyfer brecwastau am ddim mewn ysgolion, mae cynnydd yn y cyllid ar gyfer cwnsela yn yr ysgol, y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, a'r grant dysgu Sipsiwn Teithwyr.

16. Mae'r cyfleoedd a'r dewisiadau ehangach sydd ar gael i bobl ifanc drwy'r Llwybrau Dysgu 14-19 yn cael eu cynnal, fel y mae'r cymorth ar gyfer y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gyda £6.5 miliwn yn ychwanegol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig ôl 16.

**Cymwysterau, Cwricwlwm a Gwella Dysgu**
**Cyllideb 2011-12 - £155.9 miliwn**

*Cwricwlwm ac Asesu: Cyllideb 2011-12 - £100.9 miliwn*

17. Mae'r gyllideb wedi'i chynyddu £11.7 miliwn er mwyn parhau i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen fel bod modd darparu ffordd newydd a mwy effeithiol o ddysgu i blant 3 i 7 oed. Caiff ei hategu gan ragor o gynnydd yn y cyllid, o £6 miliwn yn 2012-13 a £3.9 miliwn yn 2013-14.

*Cymwysterau a Dysgu: Cyllideb 2011-12 - £15.3 miliwn*

18. Ceir gostyngiad bach o £0.1 miliwn yn y gyllideb sy'n addasiad technegol ar gyfer dibrisiant asedau cwricwlwm nad oes mo'u hangen bellach. Ceir cynnydd cyfatebol i'r gyllideb Darpariaeth Benthyciadau i Fyfyrwyr.

*Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol:*
*Cyllideb 2011-12 - £20.2 miliwn*

19. Mae cyllideb y Cyngor Addysgu Cyffredinol wedi'i gostwng £0.3 miliwn, gyda gostyngiad arall o £0.5 miliwn yn y cyfnod 2012-14. Y disgwyl yw y bydd yr arbedion hyn yn cael eu gwireddu drwy sicrhau mwy o effeithlonrwydd.

20. Mae'r gyllideb Hyfforddi a Recriwtio Athrawon wedi'i gostwng £0.5 miliwn. Mae gostyngiadau eraill o £0.4 miliwn a £0.4 miliwn yn yr arfaeth yn y cyfnod 2012-14. Mae'r rhain yn ymwneud â'r bwriad i leihau'r ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

*Datblygu'r Gymraeg: Cyllideb 2011-12 - £10.1 miliwn*

21. Mae'r gyllideb wedi'i gwarchod ar lefelau 2010-11 i adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus i'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

*Sgiliau Sylfaenol yn yr Ysgol: Cyllideb 2011-12 - £9.4 miliwn*

22. Bydd cyllid ychwanegol penodol o £1 miliwn yn cael ei ddarparu yn 2011-12 i wella Datblygiad Proffesiynol Parhaus staff ysgolion, wedi'i dargedu i wella sgiliau llythrennedd sylfaenol drwy ddysgu effeithiol. Mae dau gynnydd arall o £2 miliwn y flwyddyn yn yr arfaeth yn y cyfnod 2012-14.

**Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes**
**Cyllideb 2011-12 - £1,006.6 miliwn**

*Busnes a Sgiliau: Cyllideb 2011-12 - £27.8 miliwn*

23. Ceir gostyngiad bach o £0.75 miliwn yn y gyllideb sy'n cynrychioli gostyngiad yn y llinell Cyflogadwyedd oherwydd arbedion yn sgil y bwriad i ddirwyn y Cyfrif Dysgu Unigol i ben. Penderfynwyd cau'r cynllun Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) i gofrestriadau newydd o 30 Medi ymlaen. Mae cynnydd dangosol o £1 miliwn yn yr arfaeth ar gyfer Datblygu Sgiliau a Dysgu yn y Gweithle yn y cyfnod 2012-14. Mae'r gyllideb hon yn darparu cymorth, cyngor ac arweiniad hyfforddiant i fusnesau Cymru. Mae hyn yn cynnwys yr arian ar gyfer rhaglenni fel ReAct a ProAct ac i ddatblygu'r polisi Prentisiaeth. Mae arian craidd hwn yn cael ei ddarparu drwy'r llinell Dysgu yn y Gweithle yn y gyllideb Dysgu Gydol Oes a Darparwyr.

*Addysg Uwch: Cyllideb 2011-12 - £394.5 miliwn*

24. Mae'r gyllideb gyffredinol ar gyfer Addysg Uwch wedi'i gostwng £36.8 miliwn.

25. Bydd Addysg Uwch yn gweld gostyngiad o £51 miliwn dros y dair blynedd nesaf. Mae hyn gyfwerth â thua 11.8%, sy'n sylweddol is na'r gostyngiadau llym sydd yn yr arfaeth yn Lloegr. Bydd y gostyngiadau arfaethedig yn hwyluso'r ymrwymiad statudol i ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr Addysg Uwch, y mae eu niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Nid yw hyn yn rhagfynegi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adolygiad Browne.

26. Mae'r gostyngiadau yn cynnwys yr arbedion effeithlonrwydd yr ydym yn disgwyl iddynt gael eu gwireddu drwy weithredu'r strategaeth Er Mwyn Ein Dyfodol. Serch hynny, bydd yr ymrwymiadau i ddatblygu Prifysgol Blaenau'r Cymoedd a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg Ffederal gynt) yn parhau'n flaenoriaeth i'w hariannu o'r gyllideb hon.

27. Mae cyllideb costau rhedeg CCAUC wedi'i gostwng £0.4 miliwn dros y 3 blynedd nesaf. Mae gostyngiadau wedi'u cyflwyno i gyrff sydd â swyddogaeth weinyddol a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, lle y

mae disgwyl sicrhau arbedion tebyg i lefelau'r gostyngiadau sy'n berthnasol i Gostau Rhedeg Dirprwyedig Llywodraeth Cynulliad Cymru.

*Dysgu Gydol Oes a Darparwyr: Cyllideb 2011-12 - £584.3 miliwn*

28. Mae Darpariaeth Dysgu, sy'n cynnwys y cyllid ar gyfer dosbarthiadau chwech mewn ysgolion, addysg bellach, dysgu yn y gweithle a Dysgu Oedolion yn y Gymuned, yn cael ei ostwng £6.1 miliwn. Yn achos Addysg Bellach, bydd hyn yn cael ei gymhwyso mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r ymrwymiad i gefnogi sgiliau yng Nghymru, ac fe'i gwneir yng nghyd-destun gostyngiad o 25% dros bedair blynedd i Addysg Bellach yn Lloegr. I gymharu â hyn, mae'r cyllidebau dangosol ar gyfer Addysg Bellach yng Nghymru yn 2012-13 a 2013-14 yn ddigyfnewid.

29. Mae cyllideb y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cael ei gostwng £2.97 miliwn. Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu'r disgwyl y bydd arbedion yn cael eu gwireddu drwy gynyddu effeithlonrwydd, a hynny drwy ad-drefnu'r cwmnïau gyrfaoedd a thrwy'r ddarpariaeth gwasanaethau ei hun.

**Gwella Busnes a Buddsoddi Adnoddau:**
**Cyllideb 2011-12 - £286.9 miliwn**

*Cyllid ac Ariannu Myfyrwyr: 2011-12 Cyllideb 2011-12 - £274 miliwn*

30. Mae cyllideb Grant Dysgu'r Cynulliad wedi'i chynyddu £6.6 miliwn er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau yn y gyllideb hon, sy'n cael ei harwain gan y galw. Mae dau gynnydd arall o £1.1 miliwn a £1.9 miliwn yn yr arfaeth yn y cyfnod 2012-14.

31. Mae gostyngiadau bychain i Gostau Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (£0.4 miliwn). Mae gostyngiadau wedi'u cyflwyno i gyrff sydd â swyddogaeth weinyddol a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, lle y mae disgwyl sicrhau arbedion tebyg i lefelau'r gostyngiadau sy'n berthnasol i Gostau Rhedeg Dirprwyedig Llywodraeth Cynulliad Cymru.

32. Mae cyllideb Bwrsarïau Coleg Harlech wedi'i gostwng £0.3 miliwn a £0.1 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf. Mae'r gostyngiad yn y gyllideb yn adlewyrchu goblygiadau ariannol y ffaith bod y Gweinidog wedi derbyn argymhellion Adroddiad Hancock.

*Rheoli Gwybodaeth: Cyllideb 2011-12 - £10.3 miliwn*

33. Mae'r gyllideb wedi'i gostwng £0.6 miliwn. Mae'r gyllideb ar gyfer Strategaeth TG yr Adran wedi'i gostwng £0.5 miliwn, a hefyd mae gostyngiad bychan i'r gyllideb Cyfathrebu Strategol (£0.05 miliwn). Mae arbedion eraill gwerth £0.36 miliwn yn yr arfaeth yn y cyfnod 2012-14.

*Prosiectau Arbennig: Cyllideb 2011-12 - £2.7 miliwn*

34. Mae rhagor o arbedion gweinyddol wedi'u canfod yn y gyllideb Ymchwil a Gwasanaethau Addysg, sy'n cael ei defnyddio'n bennaf i werthuso

rhaglenni APADGOS. Mae'r gyllideb hon wedi'i gostwng £0.07 miliwn, gydag arbedion o £0.18 miliwn yn yr arfaeth.

**Cyllid Cyfalaf**
**Cyllideb 2011-12 - £173.4 miliwn**

35. Bydd defnyddio cronfa strategol a fydd wedi'i seilio i raddau helaeth ar brosiectau yn golygu y gellir rheoli cyllid cyfalaf yn fwy effeithiol o flwyddyn i flwyddyn, parhau i wneud buddsoddiadau sylweddol sydd wedi'u blaenoriaethu, a sicrhau'r symiau mwyaf posibl o arian cyfatebol er mwyn denu cyllid cyfalaf y DU gyfan ar gyfer ymchwil wyddonol DU. Yn sgil hyn, mae'r cyllidebau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfiawnder Ieuenctid, CCAUC, Ymgeisio yn Uwch, Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir a Gwella Adeiladau Ysgolion, i gyd wedi'u gostwng i sero.

36. Ceir gostyngiad o £10.1 miliwn yn y gyllideb cyfalaf wedi'i chydgrynhoi, gyda gostyngiadau dangosol eraill o £12.1 miliwn yn 2012-13 a £17.5 miliwn yn 2013-14.

37. Rhai o oblygiadau'r gostyngiad yn y gyllideb cyfalaf dros y dair blynedd nesaf yw y bydd angen cyflawni'r rhaglenni hyn dros gyfnod hirach ac y bydd y buddsoddiad, o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg uwch, yn cael ei wneud mewn modd cydlynol ar sail blaenoriaeth, o gyllideb sydd wedi'i chydgrynhoi. Byddwn hefyd yn manteisio i'r eithaf ar drefniadau cydweithio rhwng pob un o'r sectorau addysg, gan gynnwys defnyddio asedau ar y cyd.